

Cyngor Cymuned **LLANBEDROG** Community Council

Cofnodion Cyfarfod 21/05/2018 7:00yh Neuadd y Pentref Llanbedrog

Angela Russell
John Brinley Jones
Rhian Hughes-Jones
(Clerc)

Iwan Hughes
Barbara Warren

Thomas Victor Jones
William Roger Jones

William Penri Jones
Clair Russell Griffiths

1. **Ymddiheuriadau**

Wedi derbyn ymddiheuriadau gan Greta Hughes

2. **Datgan Buddiant Ariannol neu Personol**

Dim

3. **Cofnodion Ebrill 2018**

Wedi eu derbyn yn gywir ac wedi eu arwyddo.

4. **Unrhyw Fater Brys**

Dim

5. **Gwefan y Cyngor Cymuned**

Yn absenoldeb Greta Hughes benderfynwyd symud ymlaen hefo'r wefan. Wedi rhoi caniatâd i'r clercc gysylltu hefo Cradur.com i drefnu'r wefan.

Bydd y Clerc yn adrodd yn ôl am unrhyw ddatblygiadau i'r pwyllgor.

6. **Cofeb y Milwyr**

Diweddariad gan Victor Jones; Mae'r gwaith yn mynd yn ei flaen gyda help gan John Harris.

7. **Archwiliad Mewnol**

Diweddariad gan Rhian Hughes-Jones

Angen trefnu archwiliwr newydd i olynu John Roberts. Mae Rhian Hughes-Jones (Clerc) wedi roi gwahoddiad ffurfiol i Gyngor Gwynedd i wneud y gwaith archwilio mewnol ac mae'r gwaith yn mynd yn ei flaen.

8. **Lwfans Cynghorwyr**

Diweddariad gan Rhian Hughes-Jones. Eglurwyd bod yn rhaid i aelodau arwyddo datganiadau os ydynt yn dymuno gwneud cais am lwfans a'r pheidio. Mae cwestiwn wedi ei god am drothwy £30,000, ydi hyn yn golygu nad yw'r Cyngor yn gymwys i wneud cais am lwfans? Bydd Rhian Hughes-Jones yn adrodd yn ôl.

9. **Traethau**

Wedi diolch i'r ymddiriedolaeth am y gwaith sydd wedi ei wneud ar y traeth yn ddiweddar; Clirio ar ôl y tywydd garw.

Nodwyd fod y tywod wedi ei chwythu ar y traeth ac felly yn anffodus nid oes modd rhoi'r cytiau ar y traeth eleni gan nad oes sylfaen priodol.

10. **Meinciau**

Meinciau wedi eu harchebu mainc i Mrs Siddaway a Beti Thomas o Tyddyn Sachau – Diweddariad gan Iwan Hughes / Victor Jones; Mae'r ddwy fainc wedi cyrraedd ac yn barod i wneud arolwg arnynt er u gosod yn ddiogel.

Cyngor Cymuned **LLANBEDROG** Community Council

Cofnodion Cyfarfod 21/05/2018 7:00yh Neuadd y Pentref Llanbedrog

11. Archwiliad Mewnol

Yn dilyn archwiliad Gwyn Williams o'r fynwent gwnaethpwyd Victor Jones a William Jones ymweld â'r safle. Nodi'r bod yr archwiliad yn gyson hefo'r hyn maent wedi ei weld yn y fynwent a bydd rhaid gwneud gwaith ar rhai o'r cerrig beddi.

Bydd rhaid cysylltu hefo'r sawl sydd yn gyfrifol am y cerrig beddi unigol yn gofyn a ydynt am eu hail osod neu gellir eu gosod i lawr. Mae Victor Jones, William Jones ac Iwan Hughes am edrych ar yr hyn hefo'r clerc pan ddaw'r llyfrau yn ôl gan yr archwiliad mewnol.

Nodwyd buasai o fydd rhifo'r rhesi yn y fynwent er hwylustod.

Roedd hefyd gwaith strimio yn cael ei wneud yn y fynwent.

12. Llwybrau

Eisiau gwneud cais i AHNE am arian i roi arwyddion hefo hen enwau ar y llwybrau. Mae Iwan Hughes am gydlynu'r hyn gyda'r Clerc er mwyn cael yr enwau cywir.

Llwybr y Morwyr – Nid yw'r arwyddion yn glir, mae'n anodd gweld lle mae'r llwybr yn mynd. Mae'r Clerc am edrych i mewn i hyn gyd Cyngor Gwynedd.

13. GDPR – Diogelu data

Gweler Atodiad 1;

Diweddariad gan Rhian Hughes-Jones – Mae'r prif bwyntiau wedi eu nodi yn atodiad 1, mae'n angenrheidiol i oll aelodau dderbyn hyfforddiant priodol i'r Rheoliadau newydd.

Mae Angela Russell wedi eu henwebu fel Swyddog Diogelu Data i Gyngor Cymuned Llanbedrog. Bydd Rhian Hughes-Jones yn cysylltu hefo'r ICO i gadarnhau Swyddog Diogelu Data.

14. Diolch i John Harris

Mae'r Cyngor Cymuned yn awyddus i ddiolch i John Harris am ei waith called dros y blynyddoedd.

Ceisiadau Cynllunio

DIM

Taliadau wedi eu cymeradwyo

Came and Company – Yswyriant
(siec wedi ei yrru)

£1,204.11

Gohebiaeth

1. **Gwyn Williams** - Archwiliad cerrig beddi

Cyngor Cymuned **LLANBEDROG** Community Council

Cofnodion Cyfarfod 21/05/2018 7:00yh Neuadd y Pentref Llanbedrog

Atodiad 1

Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol - GDPR

1	Daw i rym 25/05/2018 Rhaid o leiaf dangos ymdrech i gydymffurfio gyda'r Rheoliad.	Pawb	
2	Effeithio pawb sydd yn delio hefo data personol (Unrhyw wybodaeth lle mae modd adnabod unigolyn) Perthnasol i'r holl wybodaeth personol (e.e. papur, electronig, e-bost, ffilm)	Pawb	
3	Rheolau mwy cadarn ac angen profi cydymffurfiaeth – Mae mwy o hawliau gan yr ICO – ffein fyny at £18m neu 4% o drosiant	Pawb	
4	Nid ywr Clerc yn gallu bod yn Swyddog Diogelu Data. Bydd y swyddog yn gyfrifol am wybodaeth personol y Clerc.		
5	Data Controller – Swyddog Diogelu Data Gyfrifol am y data <ul style="list-style-type: none">Cynghori'r Sefydliad ar ei gyfrifoldebau i gydymffurfio ar GDPRMonitro cydymffurfiaeth gyda'r GDPRPwynt cyswllt ar gyfer asiantaethau allanol mewn perthynas a Diogelu Data	Data Processor - Clerc Unrhyw un sydd yn defnyddio'r data	Swyddog Diogelu Data
	Rhaid cael cytundeb clir rhwng y ddau		Clerc
6	Dim ond ar gyfer ddibenion penodol, amlwg a chyfreithlon y dylid cael gafael ar yr wybodaeth ac ni ddylid ei phrosesu ymhellach mewn unrhyw ffordd nad yw'n cyd-fynd â'r diben neu'r dibenion hynny		Pawb
7	Rhaid cadw'r wybodaeth dan glo. Rhaid cloi swyddfa'r Clerc		Clerc
8	Anghyfreithlon i gadw gwybodaeth mwy na'r amser priodol. Rhaid gwaredu hen wybodaeth cyn gynted a bod modd.		Pawb
9	Paratoi at y GDPR <ul style="list-style-type: none">Cofrestru gyda'r ICO a thalu ffi (£35)Cofrestr Asedau – beth, sut, lle, trefniadau rhannu a diogelwch (Angen gwneud cofrestr gynhwysfawr)Hunan asesiad / awdit gwybodaeth – adnabod risgiau a bylchauCynllun gweithreduTrefniadau diogelwch cadarnPolisiau addas (SOCC gydag enghreifftiau)Hyfforddi staff (Gall y Clerc darparu'r hyfforddiant)Datganiadau Preifatrwydd – Sut yn delio gyda gwybodaeth pobl (ar waelod llythyrau ac ebyst...)		Clerc